



## Rheolau Sefydlog: Y Senedd

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo:** 07 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Geraint Pugh, [gop2@aber.ac.uk](mailto:gop2@aber.ac.uk) / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 2.0

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Mehefin 2020

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2022

# RHEOLAU SEFYDLOG: Y SENEDD

## 1. DEHONGLI

1. Os oes unrhyw gwestiynau ynghylch dehongli'r Rheolau Sefydlog hyn, dylid eu codi â'r Clerc i'r Senedd yn y lle cyntaf. Os bydd angen, cyfeirir cwestiynau o'r fath ymlaen i Gadeirydd y Senedd, a bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol.
2. Os ceir unrhyw anghysonder rhwng y Rheolau Sefydlog hyn a'r Siarter, yr Ystatudau, yr Ordinhadau neu'r Rheoliadau, ystyrir mai'r dogfennau olaf hynny sydd yn awdurdodol.

## 2. GALLUOEDD A CHYFRIFOLDEBAU

Y Senedd yw "awdurdod academaidd y Brifysgol" ac mae'n "gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau academaidd y Brifysgol mewn addysgu ac ymchwil ac am reoli buddiannau academaidd y myfyrwyr." Amlinellir Prif Gyfrifoldebau'r Senedd yn Ordinhad 7.

## 3. IEITHOEDD SWYDDOGOL

1. Mae Erthygl II o'r Siarter Atodol yn datgan mai'r Gymraeg a'r Saesneg fydd leithoedd Swyddogol y Brifysgol.
2. Bydd hysbysiad, agenda a chofnodion y Senedd yn ddwyieithog.
3. Bydd y Clerc i'r Senedd yn trefnu bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu yng Nghyfarfodydd Cyffredin ac Arbennig y Senedd.

## 4. AELODAETH

### 1. Penodi Aelodau

Darperir ar gyfer aelodaeth y Senedd a'r gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer penodi Aelodau yn Ordinhadau 18-20. Bydd y Clerc i'r Senedd yn cadw cofnod o aelodau'r Senedd.

### 2. Hyd Tymor Swyddi

Darperir ar gyfer y tymhorau y bydd Aelodau'r Senedd yn dal eu swyddi amdanynt, a'u cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cael eu hailbenodi, gan Ordinhad 18.

### 3. Datgan Buddiannau

1. Bydd Aelod o'r Senedd sydd â budd ariannol, teuluol neu bersonol arall mewn unrhyw fater a drafodir mewn unrhyw gyfarfod o'r Senedd, yn datgelu cyn gynted ag y bo'n ymarferol fod ganddo / ganddi fudd yn y cyfarfod a bydd yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o'r cyfarfod fel y bo angen.
2. Ni chyfrifir bod gan Aelod o'r Senedd fudd ariannol neu bersonol mewn materion a drafodir dim ond ar y sail ei fod / ei bod yn aelod o staff neu'n fyfyrwr yn y Brifysgol.

### 3. Ymddiswyddo, Ymddeol a Diswyddo Aelodau

Mae Ystatud 12 (Rhan 2) yn darparu'r gweithdrefnau a ddilynir yng nghyswllt ymddiswyddo, ymddeol a diswyddo Aelodau o'r Senedd; ac mae'n darparu darpariaethau i benodi i'r swyddi gwag cynamserol sy'n codi o'i herwydd.

### 4. Y Cadeirydd

1. Yr Is-Ganghellor fydd Cadeirydd y Senedd.
2. Os yw'r Is-Ganghellor yn absennol, bydd Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor, yn unol ag enwebiad yr Is-Ganghellor fydd yn Gadeirydd. Os nad yw'r Is-Ganghellor na'r un Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor na Ddirprwy Is-Ganghellor yn bresennol, bydd yr Aelodau sy'n bresennol yn dewis un o'u plith (nad yw'n fyfyrwr) i gymryd y gadair am y cyfarfod hwnnw.

## 5. **Y CLERC I'R SENEDD**

Ysgrifennydd y Brifysgol, yn rhinwedd ei swydd fel y Clerc i'r Cyngor, fydd yn ymgymryd â swyddogaeth y Clerc i'r Senedd.

## 6. **CYNNAL GWAITH Y SENEDD**

Oni nodir yn wahanol, bydd y Rheolau Sefydlog yn yr adran hon yn berthnasol i'r holl Aelodau a rheiny sy'n gweinyddu mewn cyfarfodydd.

### 1. Cyfarfodydd Cyffredin

1. Cynhelir Cyfarfodydd Cyffredin o'r Senedd o leiaf unwaith ym mhob tymor academiaidd.
2. Bydd y Senedd yn cael gwybod am ddyddiadau'r Cyfarfodydd Cyffredin yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol.
3. Os bydd angen newid dyddiad un o Gyfarfodydd Cyffredin y Senedd, bydd Cadeirydd y Senedd yn dweud wrth y Clerc i'r Senedd am ymgynghori â'r Aelodau ynghylch dyddiadau eraill a gynigir. Fel arfer rhoddir o leiaf saith diwrnod calendr o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw os newidir dyddiad unrhyw Gyfarfod Cyffredin.

### 2. Cyfarfodydd Arbennig

1. Gellir cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Senedd ar ddyddiad ac ar amser a bennir gan Gadeirydd y Senedd, ac fe'i cynullir gan y Clerc i'r Senedd ar gais ysgrifenedig Cadeirydd y Senedd, Cadeirydd y Cyngor, neu o leiaf 15 Aelod o'r Senedd.
2. Mewn unrhyw Gyfarfod Arbennig, cyfyngir y materion a drafodir i'r hyn a hysbyswyd, ac i unrhyw faterion sy'n cael eu datgan gan Gadeirydd y Senedd fel rhai sy'n codi'n uniongyrchol o'r materion hynny. Adroddir cofnodion unrhyw Gyfarfod Arbennig i'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

### 3. Hysbysiad am Gyfarfod

1. Bydd y Clerc i'r Senedd yn anfon hysbysiad am bob Cyfarfod Cyffredin at bob Aelod o'r Senedd o leiaf saith diwrnod calendr cyn dyddiad cyfarfod o'r fath.
2. Bydd y Clerc i'r Senedd yn anfon hysbysiad am Gyfarfodydd Arbennig at bob Aelod o'r Senedd cyn gynted ag y ceir y cais ysgrifenedig yn unol â'r manylion yn 6.2.1. Gwneir pob ymdrech i roi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r Aelodau am gyfarfod o'r fath.
3. Bydd hysbysiodau am gyfarfodydd yn cael eu hanfon drwy'r post neu'n electronig i'r cyfeiriad priodol yn y Brifysgol.
4. Ni fydd yr un cyfarfod o'r Senedd yn annyls dim ond oherwydd na roddwyd hysbysiad am gyfarfod o'r fath i unrhyw unigolyn neu gorff sydd â'r hawl i gael hysbysiad o'r fath o dan y Siarter ac Ystatudau.

### 4. Agendâu a Phapurau Pwyllgorau

1. Fel rheol bydd yr agenda a'r papurau sydd i'w hystyried mewn Cyfarfod yn cael eu cylchredeg drwy'r post neu'n electronig i'r Aelodau ar yr un pryd â'r Hysbysiad am y Cyfarfod. Os nad yw hynny'n ymarferol am resymau dilys, bydd y papurau fel rheol yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod fan hwyraf.
2. Fel rheol, y papurau a gylchredwyd i'r Aelodau gan y Clerc i'r Senedd fydd yr unig papurau a ystyrir gan y Senedd.
3. Ni fydd papurau a gylchredir yn ystod Cyfarfod yn cael eu hystyried ac eithrio drwy ddisgresiwn Cadeirydd y Senedd yn unig.
4. Bydd trefn y busnes yn y Cyfarfodydd Cyffredin ac Arbennig yn cael eu gosod yn yr agenda a drefnir gan y Clerc i'r Senedd, fel y'i pennir gan Gadeirydd y Senedd. Gall Cadeirydd y Senedd aildrefnu trefn y busnes yn ystod y cyfarfod.

### 5. Cyfrinachedd

1. Bydd holl fusnes y Senedd yn gyfrinachol i'r Brifysgol hyd nes cyhoeddir y cofnodion neu grynodedb arall yn rhoi adroddiad am y cyfarfod yn unol â'r ymarfer sefydledig.
2. Ni chaiff adroddiadau sy'n cael eu cylchredeg i'w hystyried gan Aelodau eu datgelu y tu allan i'r Brifysgol heb ganiatâd penodol Cadeirydd y Senedd, mewn ymgynghoriad â Chlerc y Senedd.
3. Oni bai y nodir yn benodol wrth ei gylchredeg bod adroddiad unigol yn 'Gyfyngedig', 'Masnachol Gyfrinachol' neu 'Gyfrinachol', gall Aelodau rannu gwybodaeth berthnasol o fewn i'w Cyfadrannau, eu Hadrannau neu etholaethau eraill (gan gynnwys corff y myfyrwyr) ar y ddealltwriaeth na fydd y rhai y rhennir yr wybodaeth â hwy yn ei datgelu y tu allan i'r Brifysgol.
4. Cedwir holl weithrediadau'r Senedd yn gyfrinachol yn ystod ac yn syth ar ôl cyfarfod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: fanylion a chynnwys trafodaethau a gwybodaeth ynghylch pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys safbwyntiau, barn a sefyllfaoedd a fynegir gan aelodau unigol eraill.

5. Ni chaiff unrhyw un heblaw Cadeirydd y Senedd, neu unigolyn a awdurdodwyd gan Gadeirydd y Senedd i wneud hynny, wneud datganiad ar unrhyw ffurf ar ran y pwyllgor yn ymwneud â busnes neu weithrediadau'r Senedd.
6. Os credir bod unigolyn yn amharchu'r darpariaethau uchod yng nghyswllt cyfrinachedd, gall Cadeirydd y Senedd ofyn i'r unigolyn am eglurhad a, lle bo'n addas, ofyn i'r unigolyn roi'r gorau i hynny. Wrth wneud hynny, bydd y Cadeirydd yn rhoi ystyriaeth deilwng i'r darpariaethau a amlinellir ar wahân yn yr adran yn ymwneud ag 'Ymddygiad'.

6. Bod yn Bresennol a Chymryd Rhan

1. Gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Senedd, gall Aelodau gymryd rhan o bell yn y cyfarfodydd os nad oes modd osgoi bod yn absennol o'r cyfarfod ei hun. Gall y dulliau hyn gynnwys cymryd rhan yn electronig, a thrwy gyfrwng fideo-gynadledda neu sain-gynadledda.
2. Bydd unigolion sy'n cymryd rhan o bell yn cael eu cyfrif fel petaent yn bresennol i ddibenion cworwm.

7. Trafodaethau, Cynnigion a Gwelliannau

1. Bydd unrhyw Aelod sy'n dymuno cyflwyno mater a / neu gynnig am ddadl o sylwedd mewn Cyfarfod Cyffredin o'r Senedd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Clerc i'r Senedd a hynny heb fod yn llai na 30 diwrnod calendr cyn dyddiad y cyfarfod. Nid yw hyn yn berthnasol i faterion a godir o dan 'Unrhyw Fater Arall', lle yr anogir yr Aelodau i roi gwybod am faterion o'r fath i'r Clerc i'r Senedd 48 awr cyn cyfarfod.
2. Gall Cadeirydd y Senedd ddod â chyfarfod y Senedd i ben.
3. Bydd yr Aelodau yn annerch Cadeirydd y Senedd gan gyfeirio eu cyfraniadau at y mater a drafodir, neu ar esboniad personol neu bwynt o drefn. Ni fydd yr un araith na chyflwyniad yn hwy na deng munud ac eithrio drwy gydsyniad Cadeirydd y Senedd.
4. Bydd hawl gan y rhai sy'n gweinyddu ar gyfarfod gyfrannu at y trafodaethau drwy wahoddiad Cadeirydd y Senedd.
5. Ni chaniateir trafodaeth ar Gynnig na Gwelliant os nad yw wedi'i eilio, ac eithrio lle bydd Cadeirydd y Senedd yn cyflwyno, heb roi rhybudd, Gynnig neu Welliant sydd heb gael ei eilio, a ddaw drwy hynny yn Gynnig neu Welliant gerbron y Senedd.
6. Bydd pob Cynnig neu Welliant, oni bai bod rhybudd wedi'i roi eisoes, yn cael ei roi yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Senedd, oni bai bod Cadeirydd y Senedd yn caniatáu i Gynigion a Gwelliannau o'r fath gael eu cynnig ar lafar.
7. Rhaid i bob Gwelliant fod yn berthnasol i'r Cynnig y cyflwynir yn ei gylch, a rhaid i effaith y Gwelliant beidio â bod cyfystyr â chyflwyno cynnig arall i'r cyfarfod na dirymu'r Cynnig sydd gerbron y cyfarfod. Cadeirydd y Senedd fydd yn penderfynu a yw'n berthnasol neu a yw'n dirymu'r Cynnig dan sylw.
8. Ystyrir bod pob amrywiad ar y Cynnig yn Welliant ac fe'i trinnir felly oni bai iddo gael ei gyflwyno gan gynigiwr y Cynnig gwreiddiol a hynny â chydsyniad Cadeirydd y Senedd neu fwyafrif o'r Aelodau sydd yn bresennol.

9. Ac eithrio drwy gydsyniad Cadeirydd y Senedd, ni fydd yr un Aelod yn siarad fwy nag unwaith ar Gynnig neu Welliant penodol, ac eithrio:
  1. bod gan gynigiwr y Cynnig neu'r Gwelliant hawl i ymateb ar ddiwedd y ddadl ar y Cynnig neu'r Gwelliant dan sylw;
  2. ar bwynt o drefn nad yw, drwy'r diffiniad, ond yn ymwneud ag achosion lle yr honnir bod Rheol Sefydlog wedi'i thorri, neu
  3. er mwyn rhoi esboniad personol a fydd yn egluro rhan o gyfraniad neu araith a wnaed yn gynharach gan yr aelod hwnnw, a allai ymddangos fel petai wedi'i chamddeall.
10. Ni fydd modd cwestiynu dyfarniad Cadeirydd y Senedd ynghylch pwynt o drefn nac ynghylch caniatáu esboniad personol.
11. Pan drafodir Cynnig, ni fydd yr un Cynnig arall yn cael ei gyflwyno, ac eithrio Gwelliannau, heblaw'r penderfyniadau gweithdrefnol isod:
  1. dod â'r cyfarfod i ben;
  2. dod â'r ddadl i ben;
  3. symud ymlaen i'r mater nesaf;
  4. rhoi'r cwestiwn gerbron ar unwaith;
  5. pleidleisio ar ran neu rannau o'r Cynnig ar wahân;
  6. cyfeirio pwnc y ddadl yn ôl.
12. Un Gwelliant yn unig y gellir ei gynnig a'i drafod ar yr un pryd, ac ni chynigir Gwelliant arall nes ymdriniwyd â'r Gwelliant dan sylw.
13. Os collir Gwelliant, gellir cynnig Gwelliannau eraill i'r Cynnig gwreiddiol. Os derbynnir Gwelliant, bydd y Cynnig diwygiedig yn cymryd lle'r Cynnig gwreiddiol, ac ef fydd y Cynnig o sylwedd y gellir cynnig unrhyw Welliant pellach iddo.
14. Caiff y cynigiwr a'r eilydd dynnu Cynnig neu Welliant yn ôl gyda chydsyniad Cadeirydd y Senedd neu fwyafrif o'r Aelodau sydd yn bresennol.
15. Er mwyn cyflwyno Cynnig i ddiddymu penderfyniad blaenorol y Senedd, bydd angen hysbysiad am y Cynnig yn y cyfarfod a gynhelir cyn y cyfarfod y trafodir y Cynnig ynddo. Ni fydd hyn yn berthnasol i unrhyw gynigion a gynigir gan yr Is-Ganghellor.

## 8. Dirprwyaethau

1. Bydd Dirprwyaethau sy'n dymuno dod gerbron y Senedd yn cyflwyno memorandwm esboniadol ysgrifenedig i Glerc y Senedd. Fe'i cyfeirir at y Cadeirydd. Os yw'r Cadeirydd o'r farn y dylid derbyn Dirprwyaeth ar y mater hwnnw, gwahoddir y Ddirprwyaeth i fod yn bresennol, ond nid fel arall.

2. Ni fydd mwy na thri unigolyn mewn Dirprwyaeth ac, oni cheir cysyniad datganedig gan y Cadeirydd, un Aelod yn unig ohoni a fydd yn annerch y Senedd (ac eithrio mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Senedd). Ni fydd y mater a gyflwynir gan y Ddirprwyaeth yn cael ei ystyried gan y Senedd tan ar ôl i'r Ddirprwyaeth ymadael.
3. Cyflëir penderfyniad y Senedd i'r Ddirprwyaeth yn ysgrifenedig gan Glerc y Senedd.

#### 9. Gweithdrefnau Pleidleisio

1. Penderfynir ar bob Cynnig neu Welliant drwy fwyafrif syml o Aelodau'r Senedd sydd yn bresennol ac yn pleidleisio, ac eithrio lle y pennir fel arall.
2. Fel rheol, cynhelir y pleidleisio drwy godi dwylo. Serch hynny, gellir cynnal pleidlais gudd ar gais Cadeirydd y Senedd, cynigiwr ac eilydd Cynnig, neu unrhyw ddau Aelod arall, ar yr amod bod y Clerc i'r Senedd wedi cael rhybudd priodol o'r bwriad i alw am bleidlais gudd ac wedi gwneud trefniadau dros dro er mwyn gallu cynnal pleidlais o'r fath.
3. Lle y bo'n ymarferol, gellir cynnal pleidleisiau cudd drwy ddulliau electronig.
4. Mewn achosion lle mae'r bleidlais yn gyfartal, bydd gan Gadeirydd y Senedd ail bleidlais neu bleidlais benderfynol. Nid oes rhwymedigaeth ar Gadeirydd y Senedd ddefnyddio'r bleidlais benderfynol hon. Os yw Cadeirydd y Senedd yn penderfynu peidio â defnyddio'r bleidlais honno, datgenir bod y Cynnig 'heb ei gymeradwyo'.
5. Bydd gan Gadeirydd y Senedd yr hawl i alw am bleidlais a gofnodir os gwelir bod y mater sydd i'w benderfynu o bwys eithriadol i ffyniant academiaidd y sefydliad. Bydd gan Aelod heblaw Cadeirydd y Senedd yr hawl i gynnig bod mater yn cael ei benderfynu drwy bleidlais a gofnodir. Os eilir cynnig o'r fath, fe'i rhoddir gerbron y Senedd a phenderfynir arno drwy bleidlais syml drwy godi dwylo.

#### 10. Cworwm a Dilysrwydd y Trafodion

1. Y cworwm i gyfarfodydd y Senedd yw hanner aelodaeth gyflawn y Senedd, gan dalgrynnu'r nifer i fyny i'r cyfanrif nesaf, ar yr amod mai aelodau etholedig yw'r mwyafrif.
2. At ddibenion y cworwm y cyfeirir ato uchod yn 1, dyma'r aelodau etholedig: cynrychiolwyr etholedig yr adrannau academiaidd, cynrychiolwyr penaethiaid yr adrannau gwasanaeth, a chynrychiolwyr y myfyrwyr.
2. Ni fydd trafodion y Senedd yn annilys drwy unrhyw ddiffyg o ran ei haelodaeth gyflawn, na chan unrhyw ddiffyg wrth benodi Aelodau na diffyg yng nghymwysterau ei Haelodau.

#### 11. Ymddygiad

Os bydd unrhyw unigolyn mewn cyfarfod o'r Senedd yn cyson ddiystyru dyfarniadau Cadeirydd y Senedd neu'n ymddwyn yn afreolus, yn amhriodol, yn sarhaus, neu'n llesteirio'n fwriadol waith y Senedd, a thrwy hynny ym marn Cadeirydd y Senedd yn ei gwneud yn amhosib cynnal y gwaith mewn modd priodol a threfnus, caiff Cadeirydd y Senedd, heb gyflwyno cwestiwn:

1. gorchymyn i'r unigolyn mewn cwestiwn esgusodi ei hun o'r trafodaethau; neu

2. ddod â'r cyfarfod i ben neu ei atal dros dro, a hynny am y cyfryw gyfnod ag sydd yn fuddiol ym marn Cadeirydd y Senedd.

#### 12. Cofnod o Waith Pwyllgor

1. Paratoir cofnod ffurfiol o bob Cyfarfod Cyffredin ac Arbennig, ac fe'i hystyrir yn wir gyfrif o'r trafodion pan gânt eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
2. Cedwir cofnod o bresenoldeb yr Aelodau, a rhoddir adroddiad yn y cofnodion am y rhai a fu'n bresennol ym mhob cyfarfod. Bydd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Clerc i'r Senedd.

#### 13. Dirprwyo

1. Yn unol ag Ystatud 12 (Rhan 4) ac yn amodol ar y Siarter, Ystatudau ac Ordinhadau, caiff y Senedd awdurdodi is-bwyllgor neu unrhyw Swyddog y Brifysgol i gymryd camau gweithredol ar ei rhan ynghylch unrhyw faterion penodol neu'n fwy cyffredinol a hynny gyda'r gallu i ddirprwyo ymhellach i gorff neu unigolyn arall, neu heb y gallu hwnnw, gan ddeall mai hi sy'n cadw'r cyfrifoldeb llawn am unrhyw gamau a gymerir o dan y cyfrifoldeb hwnnw a bod materion o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Senedd yn ei Chyfarfod Cyffredin nesaf.

#### 14. Ymdrin â Materion Brys

Bydd Cadeirydd y Senedd, neu yn ei absenoldeb / ei habsenoldeb, un Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor a enwebwyd gan yr Is-Ganghellor, yn cael y grym, ar ôl ymgynghori â Chlerc y Senedd, i gymeradwyo materion ar ran y Senedd, a bydd yn rhoi adroddiad ar y materion hynny i Gyfarfod Cyffredin nesaf y Senedd. Fel rheol materion brys fydd y materion na ellir yn rhesymol eu hystyried yn brydlon gan yr aelodau.

### 7. ETHOLIADAU

1. Mewn unrhyw etholiad a gynhelir gan y Senedd neu ar ei rhan, os na fydd y nifer o ymgeiswyr a enwebir yn fwy na'r nifer o swyddi gwag, byddant yn cael eu hethol yn briodol i'r swyddi gwag hynny.
2. Pan fo'r nifer o unigolion a enwebir i'w hethol yn fwy na'r nifer o swyddi gwag, cynhelir pleidlais gudd naill ai o'r Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod neu, mewn etholiadau a gynhelir drwy'r post neu'n electronig, o'r Aelodau i gyd. Lle y bo'n ymarferol, gellir cynnal pleidlais gudd yn ystod cyfarfod drwy ddulliau electronig.
3. Y Clerc i'r Senedd fydd yn ymgymryd â swyddogaeth 'Swyddog Canlyniadau' i'r holl bleidleisiau cudd a gynhelir ar ran y Senedd, ac fe benodir dau archwilydd o blith yr aelodau i oruchwylio cyfrif y papurau pleidleisio.
4. Ar ôl i ganlyniad unrhyw bleidlais gudd gael ei ddatgan, bydd y Clerc i'r Senedd yn cadw unrhyw bapurau pleidleisio am un mis cyn iddynt gael eu dinistrio.

### 8. NEWID RHEOLAU SEFYDLOG AC ATAL RHEOLAU SEFYDLOG DROS DRO

1. Gall adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn nad ydynt yn ymgorffori cymalau o'r Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau gael eu dirymu, eu newid neu eu hehangu gan y Senedd, a hynny



fel rheol ar argymhelliad Pwyllgor y Siarter. Bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio'n uniongyrchol o adolygu Siarter, Ystatudau, ac Ordinadau'r Brifysgol yn gallu dod i rym heb fod angen penderfyniad ar wahân gan y Senedd.

2. Bydd y Senedd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog hyn bob yn bum mlynedd neu'n amlach.
3. Gellir atal dros dro adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn nad ydynt yn ymgorffori cymalau o'r Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinadau er mwyn cynnal eitem benodol o fusnes ar ôl cael pleidlais lwyddiannus ar Gynnig i'r perwyl hwnnw. Bydd y Rheol(au) Sefydlog a ataliwyd dros dro yn dod yn ôl i'w grym yn syth ar ôl cwblhau'r trafodaethau ar yr eitem dan sylw.